Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

September 2021

Dear parent or guardian,

The school / immunisation nursing team will be visiting your child's school to offer children the **nasal spray flu vaccine.** This year the programme has been extended and flu immunisation will be offered to all pupils from reception class to year 11 in high school, this is part of the wider planning for winter. It's very important to protect your child from flu to make sure they stay as healthy as possible, as both COVID-19 and flu are likely to circulate this winter. Flu is caused by viruses and spreads easily. Anyone can get flu but children have the highest rate of infection and flu can be serious for them. Complications can include bronchitis, pneumonia and ear infections. Some children get so ill they need to go into hospital. Immunising your child will also help reduce the chance of children spreading flu to others who are at high risk from flu, such as young babies, grandparents, and those with long-term health conditions.

Our school nurse/immunisation team will work with education to deliver the programme according to the Welsh Government Covid-19 guidelines that are current at the time. You will soon receive a link from your child's school to an electronic consent form for the nasal spray flu vaccine along with information and a notification of the vaccination date. Please complete the electronic consent form as soon as possible. You will be able to access the electronic consent via emails, text message, schoop, twitter, QR code or any other communication platform you child's school may use.

If you have any difficulties accessing / completing the electronic consent form or need any further advice please contact the immunisation team on: **immunisation.CAVUHBschoolnursing@wales.nhs.uk** or telephone: **02920 907678**

The nasal spray flu vaccine contains a small amount of porcine gelatine, it is used in vaccines as a stabiliser to ensure that the vaccine remains safe and effective during storage. Unlike the gelatine used in foods, the product used in vaccines is highly purified and broken down into very small molecules. Flu vaccine injections do not have gelatine in them, but they do not work as well in children. If you would like your child to have the flu vaccine injection you will need to make an appointment with your GP surgery for this. Your child will **NOT** be able to receive the flu vaccine injection in school. If the nasal spray flu vaccine is not suitable, please complete the consent form as appropriate.

If there are any changes to your child's health before the vaccination session, please ensure that you notify the school nurse as their immunisation may need to be delayed.

Yours sincerely

**Sandra Dredge**
**Senior Nurse**
**Children, Young People and Family Health Services (CYPF)**

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Immunise me
Imiwneiddio fi

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Nyrsio Ysgol School Nursing
BIP Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale UHB

Mis Medi 2021

Annwyl riant neu warcheidwad

Bydd y tîm nyrsio ysgol / imiwneiddio yn ymweld ag ysgol eich plentyn i gynnig y **brechlyn ffliw chwistrell trwynol** i blant. Eleni mae'r rhaglen wedi'i hymestyn a bydd imiwneiddiad yn erbyn ffliw yn cael ei gynnig i bob disgybl o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 11 yn yr ysgol uwchradd, mae hyn yn rhan o'r cynllunio ehangach ar gyfer y gaeaf. Mae'n bwysig iawn amddiffyn eich plentyn rhag y ffliw er mwyn sicrhau ei fod yn aros mor iach â phosibl, gan fod COVID-19 a'r ffliw yn debygol o fynd ar led y gaeaf hwn. Achosir ffliw gan feirysau ac mae'n lledaenu'n hawdd. Gall unrhyw un gael y ffliw ond plant sydd â'r gyfradd heintio uchaf, a gall y ffliw fod yn ddifrifol iddynt. Gall y cymhlethdodau gynnwys broncitis, niwmonia a haint ar y glust. Mae rhai plant yn mynd mor sâl fel bod rhaid iddynt fynd i'r Ysbyty. Bydd imiwneiddio eich plentyn hefyd yn helpu i leihau'r siawns i blant ledaenu'r ffliw i eraill sydd â risg uchel o gael y ffliw, fel babanod ifanc, teidiau a neiniau a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd tymor hir.

Bydd ein tîm nyrsus ysgol/ imiwneiddio yn gweithio gydag addysg i gyflwyno'r rhaglen yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Covid-19 sy'n gyfredol ar y pryd. Cyn bo hir byddwch yn derbyn dolen i'r ffurflen gydsynio electronig gan ysgol eich plentyn ar gyfer y brechlyn ffliw chwistrell trwyn ynghyd â gwybodaeth a hysbysiad o'r dyddiad brechu. Llenwch y ffurflen gydsyniad electronig cyn gynted â phosibl. Byddwch yn gallu cael mynediad i'r ffurflen gydsynio electronig drwy negeseuon e-bost, neges destun, Schoop, Twitter, cod QR neu unrhyw lwyfan cyfathrebu arall y gall ysgol eich plentyn ei ddefnyddio.

Os oes gennych unrhyw anawsterau cael gafael ar / llenwi'r ffurflen gydsynio electronig neu os oes angen unrhyw gyngor pellach, cysylltwch â'r tîm Imiwneiddio ar:
**immunisation.CAVUHBschoolnursing@wales.nhs.uk** neu ffoniwch: **02920 907678**

Mae'r brechlyn ffliw chwistrell trwynol yn cynnwys ychydig bach o gelatin mochyn fe'i defnyddir mewn brechlynnau fel sefydlogwr i sicrhau bod y brechlyn yn parhau i fod yn ddiogel ac yn effeithiol wrth ei storio. Yn wahanol i'r gelatin a ddefnyddir mewn bwydydd, mae'r cynnyrch a ddefnyddir mewn brechlynnau yn cael ei buro'n fawr ac yn torri i lawr yn foleciwlau bach iawn. Nid oes gan bigiadau brechlyn ffliw gelatin ynddynt, ond nid ydynt yn gweithio cystal i blant. Os hoffech i'ch plentyn gael y pigiad brechlyn ffliw bydd angen i chi wneud apwyntiad gyda'ch meddygfa ar gyfer hyn. **NI** fydd eich plentyn yn gallu derbyn y pigiad brechlyn ffliw yn yr ysgol. Os nad yw'r brechlyn ffliw chwistrell trwynol yn addas, cwblhewch y ffurflen gydsynio fel y bo'n briodol.

Os oes unrhyw newidiadau i iechyd eich plentyn cyn y sesiwn frechu, sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod i nyrs yr ysgol oherwydd efallai y bydd angen gohirio eu brechiad.

Yr eiddoch yn gywir

**Sandra Dredge**
**Senior Nurse**
**Children, Young People and Family Health Services (CYPF)**

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Immunise me
Imiwneiddio fi